


Coronafeirws Newydd (COVID-19)

Arweiniad i'n Heglwysi, Llysoedd, Gweinidogion a Gweithwyr a Chanolfannau

25 Fawrth 2020

Sylwch, mae'r newidiadau i'r arweiniad blaenorol mewn llythrennau coch.



Rhagair:

Mae coronafeirws yn fath o feirws. Fel grŵp, mae coronafeirysau yn gyffredin ledled y byd.

Mae'r Coronafeirws Newydd (COVID-19) yn fath newydd o goronafeirws a nodwyd gyntaf yn Ninas Wuhan, Tsieina. Mae'n dechrau gyda symptomau sy'n debyg i'r ffliw gan gynnwys twymyn, peswch, neu brinder anadl. Y dystiolaeth bresennol yw bod y rhan fwyaf o achosion yn ymddangos yn rhai ysgafn. Fodd bynnag, gall symptomau ddatblygu'n niwmonia difrifol. Yn gyffredinol, gall y Coronafeirws Newydd achosi symptomau mwy difrifol mewn pobl sydd â systemau imiwnedd gwan, pobl hŷn, a'r rhai â chyflyrau hirdymor fel diabetes, canser a chlefyd cronig yr ysgyfaint.

Gall aelodau o'r cyhoedd helpu i ddiogelu eu hunain ac eraill drwy gario hancesi papur bob amser, a'u defnyddio i ddal peswch neu disian. Dylent daflu'r hances bapur i'r bin, ac i ladd y germau, dylent olchi eu dwylo â sebon a dŵr, neu ddefnyddio hylif diheintio. Dyma'r ffordd orau o arafu lledaeniad y rhan fwyaf o germau, gan gynnwys y Coronafeirws Newydd. Sicrhewch eich bod yn dilyn y cyngor diweddaraf ar hunan-ynysu. Mae'r cyngor i'w gael drwy ymweld â <https://llyw.cymru/full-guidance-staying-home-and-away-others>

Mae gwasanaeth NHS Direct yn parhau i weithio ar hyn o bryd. (0845 4647)

Ar yr un pryd, yr ydym yn awyddus i roi arweiniad penodol o fewn ein cyd destun arbennig ni, gan hyderu y byddwn gyda'n gilydd yn ymateb yn gyfrifol, yn amserol ac uwchlaw popeth mewn modd sydd yn amlygu consyrn a gofal dros eraill.

Yn dilyn cyfarfod pellach, yr ydym yn credu fod angen inni fod yn fwy blaengar yn yr arweiniad yr ydym yn ei ddarparu. Tra yn awyddus i ddiogelu nad ydym yn codi ofnau pobl, eto, credwn yn yr angen i ddangos ein gofal a chonsyrn mewn ffordd sydd yn amlygu parodrwydd i wneud yr hyn ag a fedrwn i ddiogelu eraill. Yr ydym hefyd yn awyddus i sicrhau fod difrifoldeb y sefyllfa, i'n iechyd ni, ac yn arbennig i iechyd eraill yn cael ei bwysleisio.

Arweiniad i Eglwysi:

- **Fydd dim** addoliad cyhoeddus yn ein hadeiladau yn ystod y cyfnod hwn. Nid ydym yn medru awgrymu pryd y bydd y cyngor hwn yn newid, ond, byddwn yn diweddarau ein gwefan yn barhaus gyda unrhyw gyngor newydd.
- **Yr ydym am bwysleisio na fydd dathliadau cyhoeddus chwaith, h.y. Bedyddiadau neu Briodasau yn ystod y cyfnod hwn. Cynhelir angladdau naill ai ar lan y bedd neu mewn Amlogfa. Caniateir i aelodau y teulu agosaf fynychu, a 'gofalwr' lle bo angen, neu, lle nad oes teulu, caniateir i ffrind fynychu. Rhaid diogelu pellter o 2 fetr rhwng preswylwyr pob cartref gwahanol.**
- Fel ym mhob achos yn awr, dylai Gweinidogion ag Arweinwyr eraill fod yn rhagweithiol yn siarad yn fugeiliol â theluloedd ag unigolion sy'n cael eu heffeithio gan y camau hyn, gan gynnig gwasanaethau coffa a dathliadau cyhoeddus o briodasau fel blaenoriaeth pan fydd y sefyllfa yn newid o ran cyfarfodydd cyhoeddus.
- Ni chynhelir gweithgarwch plant/ieuenctid fel rhan o'ch gweinidogaeth yn ystod y cyfnod hwn.
- **Caniateir defnyddio ein hadeiladau i bwrpas caniatáu lle i wasanaethau cyhoeddus neu wirfoddol angenrheidiol, e.e. banciau bwyd, gwasanaeth i'r di-gartref a sesiynau rhoi gwaed.**

Arweiniad i'n Gweinidogion / Gweithwyr:

Yr ydym yn ymwybodol iawn o'n cyfrifoldeb i fod yn bresenoldeb gofalgar mewn sefyllfaoedd lle gall pobl bod yn dioddef yn gorfforol, dioddef o ofid neu bryder, yn gofalu am aelod o deulu / ffrind neu yn gorfod cyfyngu eu symudiadau eu hunain dros dro. Mewn cyd-destun o'r fath mi fydd angen i'n gweinidogion / gweithwyr i ystyried ymateb priodol ymhob cyd-destun. Wedi dweud hyn, credwn fod angen elfen o arweiniad gennym.

- Mi fydd agen cyd dealltwriaeth rhwng arweinwyr ag aelodau mewn perthynas â gofal bugeiliol yn y cyfnod hwn. **Yn dilyn y cyngor diweddaraf ar 'deithio angenrheidiol', dim ond yr ymweliadau hynny sy'n cyfarfod â'r maen prawf – 'i ddarparu gofal neu i gynorthwyo person bregus' sydd yn dderbyniol.**
- Yr ydym yn awyddus i sicrhau er hynny, nad ydym yn esgeuluso ymweld lle bo raid, ond nad ymweliadau personol fydd yn arferol dros y cyfnod hwn. Pwysleisiwn yr angen, er hynny, i gadw mewn cysylltiad cyson gydag aelodau ag eraill.
- **Caniateir i weinidogion i ddefnyddio ein hadeiladau ac i deithio iddynt, gan gynnwys i ddarlledu gweithred o addoliad dros y rhyngwyd neu gyfryngau eraill. Ni chaniateir agor yr adeilad i aelodau/ y cyhoedd i bwrpas gweddi/myfyrdod personol.**
- Cyhoeddwyd arweiniad i'n gweinidogion a'n gweithwyr mewn perthynas â threfniadau absenoldeb salwch, trefniadau gofal dros deulu dibynnol ag unrhyw gyngor adnoddau dynol pellach ddydd Mercher 11eg o Fawrth. Dylai'r gweinidogion a'r gweithwyr hefyd gymryd sylw o'r llythyr anfonwyd atynt dyddiedig y 13eg o Fawrth.
- Bydd pob un o'n gweithwyr yn gweithio o adre yn ystod y cyfnod hwn. Bydd trefniadau priodol mewn lle yn Swyddfa'r Gymanfa, Coleg y Bala a Coleg Trefeca **i sicrhau ein bod yn ateb galwadau ffôn, a byddwn yn casglu'r post gan y Swyddfa Bost yn wythnosol.**

Arweiniad i Swyddogion / Llysoedd / Adrannau a Grwpiau:

- **Mae** ein Llysoedd, (Y Gymdeithasfa a'r Henaduriaethau) **wedi penderfynu** i beidio cynnal eu cyfarfodydd yn ystod y cyfnod hwn. Y mae'r cyfnod hwn yn ymestyn i ddiwedd mis Mai ar hyn o bryd. Mae'r arweiniad hwn yn berthnauosol hefyd i gyfarfodydd pwyllgorau amrywiol y Llysoedd hyn. Gan fod nifer o Henaduriaethau, a'r Gymdeithasfa a'r fin cyfarfod byddwn yn cysylltu yn uniongyrchol gyda swyddogion y llysoedd hyn ac yn trafod sut y byddwn yn diogelu unrhyw benderfyniadau sydd rhaid ei cymryd gan ddefnyddio ein gweithdrefn 'Pwyllgor Brys'. Fel y medrwyd ddeall mi fydd angen i ni gadw golwg ofalus ar unrhyw ddatblygiadau a ddaw o lechyd Cyhoeddus Cymru ac yr ydym am eich annog i geisio'r wybodaeth ddiweddaraf drwy ymweld â'n gwefan (<https://www.ebcpcw.cymru/cy/newyddion/>) neu ein cyfrifon

cymdeithasol: Trydar: https://twitter.com/EBC_PCW Facebook: <https://www.facebook.com/EBCPCW/>

- Wedi nodi hyn, yr ydym yn annog y rhai sydd yn trefnu cyfarfodydd i sicrhau, lle bo hynny'n bosibl bod pobl yn medru 'mynychu' unrhyw gyfarfod drwy gyfrwng Skype, **Zoom**, Facetime, Messenger fidio ayyb.
- Mi fydd pob cyfarfod Is-bwyllgor, Pwyllgor neu Adran, yn cael eu gohirio ar hyn o bryd. Mi fydd angen i Swyddogion y pwyllgorau/Adrannau hyn gymryd unrhyw benderfyniadau o dan weithdrefn 'penderfyniadau brys'. Er hynny, yn achos yr Adran Gweinidogaethau, yr Adran Adnoddau, yr Ymddiriedolwyr a Bwrdd y Gymanfa, mi fyddwn yn ystyried dros yr wythnos nesaf sut y gellir diogelu trefniadau fydd yn caniatáu trafodaeth a penderfyniadau yn eu hachos hwy ar lefel ehangach.
- Rhagwelwn y bydd llawer o'n trafodaethau yn digwydd drwy gyfrwng Skype neu Gynhadledd Ffôn. Mi fydd staff gweinyddol Swyddfa'r Gymanfa ar gael i drefnu a hwyluso hynny ar ofyn Swyddogion pob Llys, Adran neu Bwyllgor.
- Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn diddymu unrhyw drefniadau a wnaed i gynrychiolwyr EBC i ymweld ag eglwysi / digwyddiadau / cynadleddau tramor a'r tu allan i Gymru.
- Mi fydd ein prif swyddogion yn parhau i fynychu cyfarfodydd dros Skype ayyb yn ystod y misoedd nesaf.

Arweiniad i'r Canolfannau:

- Yr ydym wedi penderfynu cau ein Canolfan yn y Bala ac yn Nhrefeca yn awr tan ddiwedd Mai, a byddwn yn adolygu hyn yn ddarostyngedig i'r datblygiadau diweddaraf.